# Denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg

## Pwrpas yr adnodd hwn yw i roi cyngor i chi ynghylch sut mae:

- **Denu ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg**
- **Rhoi profiad cadarnhaol i ymgeiswyr**
- **Codi hyder ymgeiswyr a staff yn eu Cymraeg**

**Nid canllaw cyflawn o'r broses recriwtio yw'r adnodd hwn. Mae fersiwn manylach o'r adnodd hwn yn yr adroddiad.**

## Denu ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg

Ydych chi wedi...?

- Geirio testun y swydd ddisgrifiad a/neu'r fanyleb personol mewn modd sy'n gwneud y gofynion iaith yn glir ac sy'n hawdd i bawb ddeall
- Adnabod cysylltiadau a ffynonellau fydd o gymorth i ganfod ymgeiswyr e.e. ysgolion, prifysgolion, gwefannau
- Sicrhau bod popeth wedi ei ysgrifennu mewn arddull Cymraeg Clir

## Rhoi profiad cadarnhaol i ymgeiswyr

Ydych chi wedi...?

- Ymdrechu i sicrhau bod mwyafrif y panel yn siaradwyr Cymraeg
- Sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r broses gyfweld o ran y defnydd o gyfieithu ar y pryd neu beidio
- Penderfynu sut a phryd i asesu sgiliau ymgeiswyr yn y Gymraeg ac yn Saesneg (cyn, yn ystod neu ar ôl y cyfweliad)
- Nodi'n eglur yn y ddogfennaeth cynnig swydd y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer cyrraedd y lefel angenrheidiol

## Codi hyder ymgeiswyr a staff yn eu Cymraeg

Ydych chi wedi...?

- Sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg wrth estyn croeso i'r unigolyn
- Gwneud defnydd o adnoddau Iaith Gwaith i annog defnydd y Gymraeg yn y gweithle

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

IAITH y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning